## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy fideo gynadledda ddydd Iau, 15 Mai 2025 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Karen Edwards (Cadeirydd), James Elson, Carol Holliday a Merfyn Parry.

Yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Rhys Thomas ar gyfer eitem 6.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Amgylchedd (TW), Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau (LG), Swyddog Arweiniol: Tai Cymunedol (GD), Swyddog Arweiniol: Eiddo Tai (MC), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau – Gwe–letywr (KJ) a Chydlynydd Craffu (KE)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Hugh Evans, Jon Harland, Brian Jones a Cheryl Evans.

Dywedodd y Cydlynydd Craffu nad oedd cworwm gan y Pwyllgor ac felly na ellid cadarnhau unrhyw faterion ar y rhaglen.

Dywedodd y Cadeirydd y penderfynwyd gohirio eitemau yr oedd angen cytundeb y pwyllgor yn eu cylch, ac y dylid bwrw ymlaen gyda'r adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno er gwybodaeth yn unig.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

### 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Fe ohiriwyd penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Craffu Cymunedau tan y cyfarfod nesaf ar 26 Mehefin 2025.

### 4 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 5 COFNODION

Fe ohiriwyd cadarnhau cofnodion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2025 tan eu cyfarfod nesaf ar 26 Mehefin 2025.

## 6 YMATEB BRYS I DENANTIAID DIAMDDIFFYN SY'N COLLI GWRES YN EU CARTREFI

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw), gan ymddiheuro am unrhyw ailadrodd posibl, oherwydd bod y cwestiwn ar ymateb brys i denantiaid diamddiffyn sy'n colli gwres yn eu cartrefi wedi'i godi mewn gwahanol adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gan y Gwasanaethau Tai yn flaenorol.

Fe eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai a Chymunedau fod yr adroddiad yn ymdrin â sut roedd y Gwasanaeth yn cefnogi tenantiaid diamddiffyn yn benodol pe bai toriad pŵer a bod trydan yn brif ffynhonnell wresogi iddynt, yn ogystal â throsolwg mwy cyffredinol o ymatebion brys o fewn Tai Cymunedol, fel rhan o'r gwasanaeth cynllunio rhag argyfwng corfforaethol.

Swyddog Arweiniol: Fe eglurodd Tai Cymunedol fod staff Tai Cymunedol yn ymweld â chartrefi eu preswylwyr yn ddyddiol ac yn delio â nhw'n rheolaidd mewn adegau o argyfwng. Maent wedi cefnogi tenantiaid drwy argyfyngau amrywiol gan gynnwys tannau a llifogydd, heb anghofio'r pandemig.

Yr hyn a welwyd amlaf o ran argyfyngau mawr posibl oedd llifogydd yn Llanelwy, a effeithiodd yn uniongyrchol ar Llys y Felin, sef cynllun ar gyfer pobl hŷn ger Afon Elwy. Cafodd y risg o lifogydd ei fonitro'n barhaus yn y lleoliad hwn cyn ac yn ystod cyfnodau o dywydd garw a stormydd. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod staff ar gael i ymweld â phreswylwyr a'u cefnogi ag amddiffynfeydd unigol rhag llifogydd ac i baratoi rhag ofn y byddai angen gwagio cartrefi.

Y darparwyr a'r rhwydwaith cyfleustodau sy'n gyfrifol am arwain gwaith adfer, a hynny'n benodol yn dilyn toriadau pŵer. Roedd y "Cynllun Toriad Trydan a Chyfleustodau Cyffredinol" yn ymdrin â'r ymateb. Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd oedd yn arwain ar y cynllun ac mae'n cael ei reoli gan Grŵp Isadeiledd a Pharodrwydd Logistaidd y Fforwm.

Roedd y cynllun yn amlinellu cyfrifoldeb Scottish Power am yr isadeiledd trydanol ac i adfer y cyflenwad cyn gynted â phosibl. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys manylion y cynlluniau wrth gefn ar gyfer cefnogi cymunedau a chyfathrebu.

Roedd sefydliadau fel y Groes Goch Brydeinig yn bartneriaid yn y cynllun ac ymgysylltwyd â nhw os oedd toriad trydan mawr ac estynedig yn digwydd.

Roedd modd i'w cwsmeriaid a oedd o bosibl angen gofal a chefnogaeth ychwanegol yn ystod toriad pŵer, gofrestru â'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth. Mae Tai Cymunedol wedi rhannu rhestr o gyfeiriadau gyda'r gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn seiliedig ar gynlluniau penodol ar gyfer pobl hŷn.

Pe bai toriad pŵer hir yn digwydd o fewn stoc dai Sir Ddinbych a hwnnw'n lleol, h.y. yn effeithio ar un cynllun neu stryd yn unig, byddai gweithdrefnau cynllunio rhag

argyfwng yn cael eu rhoi ar waith i agor canolfan orffwys mor agos â phosibl, er mwyn darparu lle cynnes a bwyd a diod poeth.

Gan gyfeirio at y mathau o systemau gwresogi a osodwyd yn y stoc Tai Cymunedol, roedd y mwyafrif yn defnyddio nwy o hyd, fodd bynnag, byddai'r defnydd o systemau gwresogi trydan yn unig megis Pympiau Gwres yr Awyr yn cynyddu, er mwyn bod yn llai dibynnol ar danwyddau ffosil ac i gynyddu'r defnydd o fathau adnewyddadwy o danwydd. Pwysleisiwyd nad oedd newid i ddefnyddio systemau gwresogi trydan yn golygu bod tenant yn fwy diamddiffyn na'r rhai sy'n defnyddio systemau gwresogi nwy pe bai toriad yn y pŵer – gan fod boeler nwy angen trydan i weithio.

Cydnabuwyd mai tanau tanwydd solet oedd y system fwyaf gwydn o wresogi yn ystod toriad pŵer a'u bod wedi cael eu tynnu o rai eiddo yn ystod gwaith adnewyddu. Fodd bynnag, roedd y gwaith adnewyddu a'r gwelliannau i inswleiddio'r eiddo yn golygu y byddent yn cael eu hamddiffyn rhag colli gwres ac atal oerfel rhag dod i mewn am lawer hirach nag o'r blaen.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe eglurwyd wrth y Pwyllgor:

- Yn gyffredinol, ceir rhagolygon o eira trwm sawl diwrnod ymlaen llaw, sy'n golygu bod modd i'r gwasanaeth gysylltu â thenantiaid diamddiffyn i'w cynghori ac er mwyn osgoi sefyllfa o argyfwng.

- Roedd yna gynllun ymateb corfforaethol ehangach ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel mewn tywydd eithafol.

- Roedd materion o ran cyswllt y Tu Allan i Oriau blaenorol wedi'u datrys drwy gyflwyno mwy o linellau ffôn.

- Roedd strwythurau a chynlluniau cadarn ar waith trwy'r tîm Rheoli Argyfwng Strategol, gyda chefnogaeth y Tîm Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol.

- Mae swyddogion tai yn rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol â chwmnïau pŵer ynghylch eiddo gyda thenantiaid diamddiffyn, ar gyfer eu cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.

- Gosodwyd storfeydd batri paneli solar mewn tua 100 eiddo. Fodd bynnag, ni chawsant eu gosod yn safonol wrth adnewyddu eiddo oherwydd y gost.

- Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw reolaeth dros eiddo y mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn berchen arnynt mewn perthynas â cholli gwres. Fodd bynnag, mae gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu gweithdrefnau cyfatebol eu hunain o ran ymateb mewn argyfwng.

- Pe bai tenantiaid yn gofyn i gael cadw eu lleoedd tân tanwydd solet, roeddent yn cael eu gadael yn eu lle.

Awgrymwyd y dylai Cynghorau Tref a Chymuned fod yn rhan o gynlluniau, a hwythau yn y sefyllfa orau i gefnogi cymunedau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiad.

***PENDERFYNWYD y dylid nodi'r adroddiad ymateb brys i denantiaid diamddiffyn sy'n colli gwres yn eu cartrefi.***

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu raglen waith y Pwyllgor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd i'w gweld yn atodiad 1a.

Dywedodd y Cydlynydd Craffu fod y Swyddog Arweiniol a oedd fod i adrodd ar y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth yn y cyfarfod hwnnw wedi gofyn i ohirio. Roedd gwaith ar y prosiect wedi'i ohirio oherwydd y swydd wag Uwch Beiriannydd a blaenoriaethau eraill o ran llwyth gwaith, megis prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro ac adolygu'r terfyn cyflymder 20mya. Byddai'r adroddiad yn cael ei ychwanegu at eitemau'r rhaglen waith yn y dyfodol a phennir union ddyddiad unwaith y bydd y swydd wedi'i llenwi a'r prosiect wedi'i ailddechrau.

Cafodd yr eitem ar y Gwasanaeth Ailgylchu Gwastraff ei gohirio hefyd, gan nad oedd data wedi'i wirio ar gael ar y pryd. Byddai'r adroddiad yn cael ei ychwanegu at raglen y cyfarfod nesaf ar 26 Mehefin 2025.

Trefnwyd yr eitemau canlynol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhelir ar 26 Mehefin:

I. Adolygiad o'r Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi/ Cartrefi Gwag Hirdymor.

II. Gorfodi Parcio (archwilio'r meini prawf a'r polisïau sydd ar waith ar gyfer dynodi cyfyngiadau parcio ledled y Sir).

*III. Gwasanaeth Ailgylchu Gwastraff – (Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ffigyrau'r incwm a gynhyrchir gan y gwasanaeth ailgylchu a chynnig newid rhywfaint o'r gwasanaeth i Gasgliadau Pen Lôn).*

Cynhelir cyfarfod nesaf Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar 30 Mehefin 2025 ar gyfer cyflwyno ceisiadau am Gynigion Craffu - dosbarthwyd ffurflenni Ceisiadau Cynigion i Graffu yn y pecyn rhaglen (atodiad 3).

***PENDERFYNWYD y dylid nodi rhaglen waith y Pwyllgor Craffu Cymunedau.***

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:45am